# Cyngor Caerdydd

# Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24
# Adolygiad Blynyddol 2022/23

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.**
**This document is available in English. Other formats are available on request.**



CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

## Cynnwys


Cyflwyniad 3

Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb yn 2022/23:

1. Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd 4
2. Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt 9
3. Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y ddinas neu sy’n ymweld â hi 12
4. Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol 17

## Cyflwyniad

Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024, gan nodi pedwar Amcan Cydraddoldeb y bydd y Cyngor yn mesur cynnydd yn eu herbyn dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd trwy'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Mae'r adroddiad hwn ar Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

Lluniwyd y pedwar Amcan Cydraddoldeb yn dilyn rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gyda dinasyddion a chynrychiolwyr o grwpiau nodweddion gwarchodedig. Cafodd y cyfranogwyr gyfle i roi eu barn a helpu i lunio'r Amcanion Cydraddoldeb a bennwyd ar gyfer y cyfnod pedair blynedd.

Y pedwar Amcan Cydraddoldeb yw:

1. **Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd**

2. **Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt**

3. **Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y ddinas neu sy'n ymweld â hi**

4. **Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion hyn yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw un o'r mentrau a grybwyllir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, e-bostiwch: timcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

## Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 1: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd

### Tai

Cartrefi Cyngor Newydd

Mae ein rhaglen adeiladu tai, Cartrefi Caerdydd, wedi cwblhau a darparu cartrefi newydd er gwaethaf effeithiau'r pandemig diweddar, costau cynyddol ynni a deunyddiau, a nifer o gontractwyr sefydledig yn rhoi'r gorau i fasnachu. Mae gwaith datblygu'n parhau i gyflawni ein nod o 4,000 o gartrefi newydd dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae Cartrefi Caerdydd wedi darparu 822 o gartrefi newydd gyda 385 o gartrefi eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn parhau i ystyried yr holl opsiynau i gynyddu nifer yr eiddo fforddiadwy, ynni-effeithlon a charbon isel yn y ddinas. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu nifer yr eiddo yr ydym yn eu prynu ac wedi ehangu'r cartrefi modiwlaidd ar safle y gwaith nwy i gynyddu'r cyflenwad.

Mewn menter ar y cyd â Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio ar gynllun tai peilot Sero Net yn Llanedern i ddarparu 50 o gartrefi Cyngor di-garbon newydd.

Tai Pobl Hŷn

Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'i waith o ddatblygu a darparu tai i bobl hŷn drwy Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2019-23. Mae darparu ystod amrywiol o gyfleusterau a gwasanaethau i denantiaid wedi galluogi pobl i fyw yn eu cartrefi yn annibynnol ac am gyfnod hirach.

Mae gwaith i ddatblygu 44 o fflatiau Gofal Barod yn Nhŷ Addison yn Nhredelerch wedi dechrau gyda'r bwriad o'i gwblhau ym mis Tachwedd 2023.

Mae gwaith i ddatblygu 101 o fflatiau Gofal Barod yn y Maelfa a Llaneirwg wedi dechrau.

Mae contractau wedi'u cyfnewid ar gyfer datblygu 41 o fflatiau yng nghynllun Byw yn y Gymuned Heol Lecwydd, gyda disgwyl iddynt gael eu cwblhau yn gynnar yn 2025.

Mae uwchgynllunio ar y gweill i ddarparu 250 o gartrefi newydd ym Mhentref Lles arfaethedig Llanfihangel. Ynghyd â'r cynllun hwn bydd nifer o adeiladau cyhoeddus a fydd yn cynnig ystod o amwynderau i drigolion a'r gymuned leol. Yn amodol ar gynllunio, disgwylir i'r gwaith ddechrau ar gyfleusterau Pentref Lles Michaelston ddiwedd haf 2024.

Cyflwynwyd cais cynllunio i ddatblygu tai i bobl hŷn yn Moorland Road, ac mae gwahoddiad i dendro wedi'i gyhoeddi ar gyfer cynnig i ddatblygu 44 o fflatiau i bobl hŷn yn Stryd Bute.

## Ein Gweledigaeth i Roi Diwedd ar Ddigartrefedd

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a'r teuluoedd sy'n ddigartref sydd wedi rhoi pwysau difrifol ar bob rhan o'r system dai, yn enwedig y diffyg tai fforddiadwy.

Cynhaliwyd adolygiad o elfen atal Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-26 i sicrhau bod pob llwybr i atal digartrefedd yn cael ei ystyried, fel bod pobl yn cael eu cefnogi o gam cynnar, a chyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. Mae'r Tîm Atal bellach wedi'i alinio'n llawn o fewn y Gwasanaeth Cynghori ochr yn ochr â'r Tîm Datrysiadau Tai. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy'r Llinell Gymorth Tai neu Hybiau Cymunedol lleol – mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig ymweliadau cartref.

Cyflwynwyd Gwasanaeth Landlord/Landlordiaid ag Eiddo, Tenantiaeth, Ymholiadau (LLETY) i weithio'n weithredol gyda landlordiaid preifat i gynyddu nifer y llety sefydlog sydd ar gael. Gan weithio gyda landlordiaid ledled y ddinas, mae LLETY yn rhoi cymhellion iddynt i annog mwy o fynediad i'r sector rhent preifat i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai. Mae llinell dir bwrpasol i landlordiaid ar waith ac mae gwaith i hysbysebu'r cynllun LLETY yn parhau gan ddefnyddio nifer o blatfformau, gan gynnwys safleoedd bysus a'r cyfryngau cymdeithasol.

Dan Gynllun Prydlesu Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi rhagori ar ein targed o 20 o eiddo drwy sicrhau 22.

Mae Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym y Cyngor wedi'i gwblhau ac mae gyda Llywodraeth Cymru i'w adolygu.

## Economi Gynhwysol a Theg

Gwnaeth Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith y Cyngor gynnydd da o ran cynyddu nifer y cynigion o leoliadau allanol i bobl ifanc, gan gynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, y Tîm Iechyd Meddwl Adferiad a Sound Progression.

Arweiniodd adolygiad o'r prosiect Dyfodol Disglair at leihau dyblygu gwasanaethau a chynyddu'r ddarpariaeth mewn sawl ardal i gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gweithiodd ein Tîm Cyswllt Cyflogwyr yn agos gyda chyflogwyr i nodi lleoliadau addas ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae model cyflawni newydd wedi'i gyflwyno. Llwyddodd Addysg Oedolion a Caerdydd ar Waith i gyflwyno cyrsiau gweinyddol, gan roi cyflwyniad i bob agwedd ar waith gweinyddol. Cyflwynir cyrsiau hefyd mewn lleoliadau cymunedol gyda chynlluniau i ddefnyddio ysgolion fel lleoliadau lleol ar y gweill.

Gwnaeth cais llwyddiannus am gyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) alluogi datblygu Rhaglen Cyflogaeth â Chymorth dair blynedd wedi'i hanelu at unigolion ag anawsterau dysgu ac awtistiaeth.

Mae Swyddog Gwerth Cymdeithasol wedi'i benodi i helpu i greu llwybrau i unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar bob cyfle cyflogaeth.

## Lle Gwych i Blant o Bob Cefndir Gael eu Magu

Plant sy’n Derbyn Gofal a Phobl sy'n Gadael Gofal

Cyfrannodd y Grŵp Gweithredol Rhianta Corfforaethol at y blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2021-24, gan gynnwys cynnig cyfleoedd datblygu gyrfa penodol i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Datblygodd pobl ifanc eu fersiwn eu hunain o'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol gydag aelodau'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Grŵp Bright Sparks. Cynhyrchwyd fideo a gafodd ei gynnwys yn Wythnos Datblygu Ymarfer yn ystod mis Hydref 2022 fel enghraifft o gyd-gynhyrchu.

Cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant ar-lein i Aelodau Etholedig - roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys rhannu barn a dymuniadau plant a phobl ifanc am yr hyn yr hoffent ei weld gan Gynghorwyr fel Rhieni Corfforaethol.

Datblygwyd Rhaglen Ymweliadau Aelodau Etholedig newydd a bydd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol gwrdd â staff sy'n darparu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae’r ymweliadau hefyd yn gyfle i’r Aelodau glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc.

Mae Grŵp Ymgynghori â Phobl sy’n Gadael Gofal wedi'i lansio i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i ddylanwadu ar benderfyniadau a chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu gwasanaethau.

Cydweithiodd y Gwasanaethau Plant a'r Tîm Dinas sy'n Dda i Blant i gyflwyno gŵyl haf undydd ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, teuluoedd a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Daeth dros 200 o bobl i'r digwyddiad ac roedd yr adborth a gafwyd o'r digwyddiad yn gadarnhaol.

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

I gydnabod y cynnydd a wnaed gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd, cafodd y Gwasanaeth ei ostwng o'i statws blaenoriaeth blaenorol. Mae'r gostyngiad yn dangos yr hyder sydd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn y rheolwyr gweithredol a'r uwch arweinwyr yng Nghaerdydd o ran sicrhau gwelliannau a chanlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Mae grant a dderbyniwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi galluogi rhaglen dair blynedd, o'r enw 'Turnaround', i gynorthwyo gyda gwaith ymyrryd ac atal gwirfoddol. Mae Turnaround yn ceisio ehangu'r cylch gwaith atal i gynnwys yr holl waith ymyrryd cyn y llys, gan gynnwys ail-lansio ac ailfrandio'r Tîm Atal dan y faner 'Croesffyrdd'. Cafodd yr enw Croesffyrdd ei ddewis gan bobl ifanc i gynrychioli'r pwynt yn eu bywyd pan ddônt i sylw'r Heddlu gan arwain at atgyfeiriadau cychwynnol i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd.

Cytunwyd ar broses Tramgwydd ac Anogaeth newydd, gan sicrhau proses gadarn i fynd i'r afael â phroblemau pan nad yw person ifanc yn cydymffurfio â'i Orchymyn. Mae'r Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid 'Ein Dyfodol Ni i Gyd' wedi'i diweddaru ac mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu ar y gweill.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc

Mae tair ysgol â dysgwyr oed uwchradd wedi treialu cam cyntaf offeryn hunanasesu fel rhan o'r Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol (DYGYLlEM). Aeth 32 o ysgolion eraill i sesiwn friffio DYGYLlEM i gyflwyno dogfennaeth a chynlluniau ar gyfer cyflwyno'r ail gam.

Gwnaeth cais llwyddiannus am gyllid y Loteri Genedlaethol gan Llamau a Chyngor Caerdydd alluogi darparu sgrinio a chymorth gan Upstream Cymru ar gyfer dwy ysgol uwchradd arall.

Maes sylweddol o bryder fu gwaharddiadau parhaol, yn bennaf oherwydd adladd pandemig COVID-19 / y cyfnodau clo, gan arwain at gynnydd mewn problemau cymdeithasol, emosiynol a chymunedol i blant a theuluoedd. Dilynodd dau aelod o'r tîm Lles ac Iechyd Emosiynol arbenigol hyfforddiant Hyfforddwyr THRIVE, gan gymhwyso fel hyfforddwyr THRIVE a gallu rhoi hyfforddiant i hyd at 24 o aelodau o staff ar lefel gynradd ac uwchradd.

Derbyniwyd Caerdydd ar y cynllun peilot achrededig ar gyfer model Gogledd Swydd Efrog 'No Wrong Door' sy'n ffordd anhraddodiadol o weithio gyda phobl ifanc sy'n profi teithiau cymhleth, gyda 'Hyb' preswyl arloesol wrth wraidd y gwasanaeth i gynnig lleoliadau preswyl byrdymor a chymorth allgymorth. Trwy adolygiad annibynnol, dangoswyd bod y model hwn yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ynghyd ag arbedion ariannol sylweddol. Cafodd y model ei weithredu yng Nghaerdydd fel 'Strategaeth Y Lle Cywir' ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet fel rhan o'r Strategaeth Gwasanaethau Plant drosfwaol ym mis Ionawr 2023.

Addewid Caerdydd a Chefnogi Pontio Pobl Ifanc i Fyd Gwaith

Mae dull gweithredu'r Fforwm Busnes yn parhau i ymgorffori dyheadau Addewid Caerdydd mewn ysgolion, gyda llawer yn sefydlu ffocws penodol ar botensial partneriaeth. Mae dwy o'n hysgolion nawr yn ceisio ymwreiddio'r gwaith hwn ar draws gwahanol feysydd dysgu, sy'n gam sylweddol ymlaen mewn defnyddio arbenigedd diwydiant i wireddu'r cwricwlwm yng Nghymru.

Mae Addewid Caerdydd yn gweithio gyda'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar egwyddorion dylunio i gefnogi ysgolion yn rhagweithiol, gan gynnwys ystyried llwybrau dysgu.

Mae'r Fforwm Busnes Lleoliadau Arbenigol yn bwrw ymlaen â'i flaenoriaethau allweddol i ddatblygu gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Cyfarfu nifer o gyflogwyr, gan gynnwys BBC Cymru, y Gwasanaeth Sifil, Celsa Steel, Admiral Insurance, BAM, Tilbury Douglas a Llywodraeth Cymru, ag Addewid Caerdydd i ystyried datblygu llwybrau cyflogaeth â chymorth i bobl ifanc ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.

## Mynd i’r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched

Roedd gwaith yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn i adolygu a diweddaru'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ranbarthol. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gyda phartneriaid i helpu i lunio'r strategaeth ddiwygiedig "Mae Yn Ein Dwylo Ni". Cafwyd mewnwelediadau gwerthfawr yn ystod digwyddiad i ddioddefwyr a goroeswyr; defnyddiwyd y rhain i lywio a chryfhau'r strategaeth ddiwygiedig. Mae cynllun gweithredu hefyd yn cael ei baratoi i gyd-fynd â'r strategaeth newydd.

## Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 2: Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt

### Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd

Ym mis Rhagfyr 2022, ymatebodd y Cabinet i adroddiad terfynol y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, gan dderbyn yr holl argymhellion a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar draws y pum maes blaenoriaeth a nodwyd: Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol; Addysg a Phobl Ifanc; Llais y Dinesydd; Iechyd; a Chyfiawnder Troseddol.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau monitro a goruchwylio cadarn, a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cyn diwedd 2023/24. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, gwahoddir y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i ailymgynnull i ystyried ac adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid. Mae'r meysydd cynnydd ar unwaith yn cynnwys:

- Gwell allgymorth ac ymgysylltu â chymunedau ethnig leiafrifol y ddinas, gan dîm i Mewn i Waith y Cyngor, i wella mynediad i Caerdydd ar Waith.
- Lansio rhaglen datblygu arweinyddiaeth beilot ar gyfer rhwydweithiau cyflogeion y Cyngor sy'n canolbwyntio ar gynyddu amrywiaeth ein rheolwyr a'n uwch reolwyr yn y dyfodol.
- Cynyddu gwelededd modelau rôl Du ac Ethnig Leiafrifol trwy noddi Darlith Flynyddol Cerflun Betty Campbell.

### Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF

Cwblhawyd cyflwyniad Caerdydd i ennill statws Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF ym mis Medi 2022, ac mae UNICEF UK wrthi'n craffu ar y cyflwyniad cyn symud ymlaen i gam olaf yr asesiad. Os bydd yn llwyddiannus, Caerdydd fydd y ddinas gyntaf yn y DU i ennill achrediad UNICEF.

Mae Dull Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (DYPH) yn elfen sylweddol o nod strategol Caerdydd sy'n Dda i Blant, sy'n canolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar hawliau o ymdrin ag addysg. Ar hyn o bryd mae 89 o 127 o ysgolion wedi'u hachredu fel Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Aur, Arian neu Efydd, gyda 22 o ysgolion eraill bellach wedi'u cofrestru, sy'n golygu bod cyfanswm o 111 o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun.

Mae gwaith yn parhau i hyrwyddo hawliau plant drwy ddatblygu'r gweithlu, cyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a sesiynau hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr.

## Gwella Cyfranogiad Dinesig

Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd newydd gyda ffocws ar ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i annog cyfranogiad ehangach yn ein gweithgareddau cyhoeddus a'n penderfyniadau. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid, unigolion a sefydliadau wedi rhoi cipolwg ac arweiniad gwerthfawr ar sut y gall y Cyngor gryfhau ei arferion ymgysylltu ac ymgynghori.

## Dinas Cyflog Byw

Gwnaeth menter Cyflog Byw Gwirioneddol Cyngor Caerdydd ennill gwobr y Local Government Chronicle am y Bartneriaeth Gyhoeddus/Breifat Orau yn 2022. Mae statws y ddinas fel Dinas Cyflog Byw wedi cael ei adnewyddu am y tair blynedd nesaf, yn dilyn cadarnhad gan y Sefydliad Cyflog Byw.  Mae 40 yn rhagor o sefydliadau yng Nghaerdydd wedi dod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys 100fed sefydliad sector preifat y ddinas, ac erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd cyfanswm o 199 o gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig. Mae ychydig dros 66,000 o bobl yn cael eu cyflogi gan gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yn y ddinas a derbyniodd bron i 11,000 ohonynt godiad cyflog o ganlyniad i'r achrediad. Caerdydd sydd â'r ganran isaf o swyddi sy'n talu llai na'r Cyflog Byw yng Nghymru (11.6% o’r holl swyddi; 24,000) ac mae ymhlith yr isaf o'r Dinasoedd Craidd. Mae'r Cyngor wedi gosod targedau newydd i gyflawni 300 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig dros y tair blynedd nesaf.

## Prifddinas Gydlynol a Chroesawgar

Mae prosiectau a digwyddiadau wedi cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn i gyflawni Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd gweithdai gyda phobl ifanc o glybiau bocsio ac ysgolion yng Ngogledd a De Caerdydd i edrych ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc gan gynnwys hiliaeth, troseddau casineb, iechyd meddwl, ac ymwybyddiaeth o’r holocost / hil-laddiad.

Derbyniodd hyfforddiant a roddwyd i staff y Gwasanaethau Plant ynghylch camfanteisio adborth rhagorol, mae sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb cyffredinol wedi cael eu cynnal mewn partneriaeth â Cymorth i Ddioddefwyr, ac mae llywodraethwyr ysgolion wedi derbyn sesiynau codi ymwybyddiaeth o wrth-fwlio. Mae ymgysylltu agos â nifer o sefydliadau sy'n ymgysylltu â'n cymunedau nas clywir yn aml yn parhau, gan gynnwys COMPAS, elusen sy'n gweithio gyda chymunedau Roma Dwyrain Ewrop.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau partneriaeth ar y cyd, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chymorth sydd ar gael i ddioddefwyr, ac ymgysylltu'n agos â llawer o sefydliadau chwaraeon. Mae baner bartneriaeth (Cyngor Caerdydd, Heddlu De Cymru a Cymorth i Ddioddefwyr) wedi'i chynhyrchu a oedd yn galluogi clybiau chwaraeon fel Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Rygbi Caerdydd a Chlwb Criced Morgannwg i godi ymwybyddiaeth yn eu lleoliadau. Aeth staff cydlyniant i’r lleoliadau hyn a chyfrannu at y sesiynau.

Yn dilyn lansio Diwrnod Gyda'n Gilydd Caerdydd yn yr haf, sefydlodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol rwydwaith Mwy yn Gyffredin. Mae cynllunio bellach yn digwydd ar gyfer ffurfioli Partneriaeth Mwy yn Gyffredin Caerdydd ynghyd ag uno nifer o gyfarfodydd / partneriaethau presennol eraill sy'n canolbwyntio ar Gydlyniant.

Cynhaliwyd Diwrnod Gyda'n Gilydd y Gaeaf ym mis Rhagfyr 2022. Roedd y thema yn ymwneud ag unigrwydd ac yn cynnwys negeseuon ynghylch cydlyniant, gwydnwch i naratifau niweidiol, a hyrwyddo cymunedau cynhwysol trwy Sefydliad Jo Cox. Helpodd 11 o sefydliadau partner i gynnal 18 o ddigwyddiadau ar wahân yn ystod cyfnod o bythefnos ar draws wyth o wardiau'r ddinas. Gwnaeth dros 1,500 o bobl gymryd rhan, gan gynnwys 13 o ysgolion (saith ysgol gynradd, chwe ysgol uwchradd).

## Dinas sy'n Dathlu Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy Gerddoriaeth a Diwylliant

Cafodd y pandemig diweddar effaith sylweddol ar sector diwylliannol Caerdydd gyda llawer o leoliadau yn gorfod cau eu drysau, a bu'n rhaid i'r Cyngor atal ei raglen digwyddiadau mawr. Effaith barhaol y pandemig fu prinder sgiliau a diffyg staff i gefnogi'r gwaith o gynnal sioeau a digwyddiadau. Yn ogystal â hyn, mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar swm yr incwm gwario sydd gan bobl i'w wario ar ddigwyddiadau diwylliannol. Er mwyn helpu i adfer y sector hwn, mae'r ddinas yn gweithio i wneud y gorau o'i hasedau creadigol a diwylliannol.

Mae Strategaeth Diwylliant yn cael ei datblygu gydag ymchwil fanwl barhaus i weithgarwch a heriau cyfredol. Cyflwynwyd yr achos busnes amlinellol strategol ar gyfer Gŵyl Gerddoriaeth Ryngwladol i Lywodraeth Cymru i'w ystyried yn gynnar yn 2023. Mae lleoliad academaidd wedi'i sicrhau gan Brifysgol De Cymru i gefnogi'r ŵyl lawn.

Fel rhan o'n hymdrech i dyfu Caerdydd fel canolfan creadigrwydd a diwylliant, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd i weithredu argymhellion yr adroddiad gan Sound Diplomacy mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd cyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Cerddoriaeth Caerdydd.

## Sicrhau a Monitro ein Cynnydd

Mae ein Dangosfwrdd Cydraddoldeb yn parhau'n adnodd gwych i staff. Mae data lleol a chenedlaethol ar dlodi ac anghydraddoldeb yn cael ei gadw mewn un lle sy'n galluogi staff i gael mynediad at dystiolaeth i lywio cynlluniau, strategaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Mae'r Dangosfwrdd Data Cydraddoldeb yn offeryn allweddol i swyddogion wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac mae'n cael gwybodaeth o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sy'n rhoi tystiolaeth i'n galluogi i ystyried a bodloni'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

# Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 3:
# Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y ddinas neu sy'n ymweld â hi

## Dinas Gysylltiedig a Hygyrch trwy Ddylunio

Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd yn helpu i lunio Caerdydd am y 13 mlynedd nesaf hyd at 2036, gan sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn ar yr adeg iawn, gan ddod â buddion i gymunedau a'r economi yn ogystal â nodi pa ardaloedd y mae angen eu diogelu. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth ar Weledigaeth ac Amcanion y CDLl a'r Opsiynau Twf Strategol yn 2021/22, mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu'r Strategaeth a Ffefrir y bydd ymgynghori arni yn ystod haf 2023. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir wedi ystyried y gweithgareddau targedig a gynhaliwyd gyda grwpiau allweddol ledled y ddinas. Bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau fel rhan o'r ymgynghoriad helaeth ar y Strategaeth a Ffefrir dros yr haf a thrwy gydol y camau sy'n weddill o baratoi'r CDLl.

## Cadw ein Mannau Cyhoeddus yn Hygyrch

Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn

Cafodd y ffaith i Gaerdydd gael ei derbyn i Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn ei dathlu yng Nghastell Caerdydd yn ystod digwyddiad lansio ym mis Mehefin 2022. Sefydlwyd y Rhwydwaith yn 2010 i gysylltu dinasoedd, cymunedau a sefydliadau ledled y byd gyda'r weledigaeth gyffredin o wneud eu cymunedau'n lle gwych i dyfu'n hŷn. Cyhoeddwyd y cylchlythyr Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn chwarterol cyntaf, sydd ar gael yn ddigidol ac mewn print, gydag enghreifftiau cadarnhaol o gynnydd ym mhob un o wyth Parth sy'n Dda i Bobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd.

Wedyn lansiodd Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn ei sianeli cyfryngau cymdeithasol ar 1 Hydref, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Yn ogystal â'r cylchlythyr, mae'r cyfrif Twitter a'r dudalen Facebook yn cynnig llwybr gwybodaeth arall i bartneriaid a phobl hŷn gael gwybod am y gwasanaethau a'r datblygiadau cadarnhaol sy'n bodloni anghenion dinasyddion hŷn ac yn gwneud Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar wefan Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn; datblygwyd y fframwaith drwy ymgysylltu â phobl hŷn a bydd yn seiliedig ar dri phennawd – Eich Iechyd, Eich Dinas, Eich Cartref.

Cafodd Cyngor Caerdydd ei gydnabod fel Cyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn a'i dderbyn i gynllun Addewid y Centre for Ageing Better ym mis Mawrth 2023. Mae'r Centre for Ageing Better yn sefydliad ledled y DU sydd ar flaen y gad o ran yr uchelgais i sicrhau bod pawb yn heneiddio'n dda. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwerth pobl hŷn yn y gweithle yn cael ei gydnabod gan gyflogwyr a bod sefydliadau'n creu timau aml-genhedlaeth. Mae Addewid Cyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn y Ganolfan yn rhaglen genedlaethol ar gyfer cyflogwyr sydd wedi ymrwymo i wella cyfleoedd datblygu gyrfa a chymorth i'r rhai sy'n 50 oed neu'n hŷn.

Rhan allweddol o'n Strategaeth Heneiddio'n Dda yw cofleidio'r defnydd o dechnoleg a helpu i gefnogi byw'n annibynnol yn y ddinas. Ym mis Mehefin, lansiodd y Cyngor 'HoliSARA', offeryn hunanasesu ar-lein, a fydd ar gael i'w ddefnyddio gan ddinasyddion trwy wefan y Cyngor. Trwy gyfres o gwestiynau, mae HoliSARA yn helpu i arwain dinasyddion at dechnoleg gynorthwyol a chymhorthion bach ac offer a all helpu pobl hŷn ac anabl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi mynediad i ddinasyddion at wybodaeth i gefnogi byw'n annibynnol 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â dros 10,000 o atebion wedi'u cymeradwyo gan therapyddion galwedigaethol.

Mae mwy o wybodaeth am yr holl gyflawniadau a wnaed dros y flwyddyn gyntaf ar gael yng Nghrynodeb Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn 2022/23.

Dinas sy'n Deall Dementia

Mae'r Rhaglen Gwirfoddolwyr sy'n Deall Dementia, a lansiwyd ar Ddiwrnod Clefyd Alzheimer y Byd ym mis Medi 2022, yn recriwtio ac yn hyfforddi Cenhadon sy'n Deall Dementia i gefnogi siopau, busnesau a sefydliadau lleol i weithio tuag at ddod yn rhai sy'n Deall Dementia. Y cynllun yw'r fenter ddiweddaraf gan Gaerdydd sy'n Deall Dementia ac mae'n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu Cymunedau sy'n Deall Dementia ledled Cymru. Er gwaethaf dechrau araf i'r flwyddyn, gwelwyd cynnydd yn Chwarter 4, gyda 64 o fusnesau yn cofrestru ar gyfer yr Addewid Deall Dementia, yn erbyn targed o 40. Yn ogystal, er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael, cynhaliwyd 2,616 o ddigwyddiadau Dinas sy'n Deall Dementia trwy gydol y flwyddyn, yn erbyn targed o 600. Mae canran y staff sy'n cwblhau'r modiwl hyfforddiant Deall Dementia yn parhau'n isel, gyda dim ond 54% o staff yn cwblhau'r hyfforddiant, yn erbyn targed o 85%. Wrth symud ymlaen, bydd cwblhau'r hyfforddiant yn dod yn ofyniad gorfodol ac yn gysylltiedig ag adolygiadau perfformiad staff.

## Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd

Gwnaeth y Cyngor barhau â'n Rhaglen Hybiau Cymunedol gyda'r nod o alluogi trigolion Caerdydd i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu cymunedau lleol eu hunain.

Ym mis Gorffennaf agorwyd yr Hyb Iechyd Meddwl a Lles newydd yn y Maelfa a dyma'r cyntaf o'i fath. Gan gael ei ddarparu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro a Chanolfan Iechyd Llanedern, mae'r dull Hyb newydd hwn yn gwella'r gwasanaethau sydd eisoes ar gael drwy integreiddio ystod o glinigau iechyd arbenigol gan gynnig 'dull un stop' o ymdrin ag iechyd a lles ein trigolion.

Croesawodd Hyb Lles Cymunedol Rhiwbeina gwsmeriaid yn ôl ym mis Ionawr 2023. Gyda chyllid gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, y Gronfa Ail-gydbwyso Gofal a'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, mae'r adeilad wedi'i adnewyddu a'i drawsnewid yn gyfleuster cymunedol addas at y diben a fydd yn cefnogi cyd-leoli gwasanaethau llyfrgell gyda gwasanaethau cyngor, tai a gofal cymdeithasol newydd.

Mynd i'r Afael ag Ynysigrwydd Cymdeithasol

Gwnaethom gyflwyno menter Ardaloedd Croeso Cynnes, gan gefnogi bron i 12,000 o drigolion y ddinas trwy'r argyfwng costau byw ac wrth wneud hynny, helpu i atal ynysigrwydd. Mae'r fenter yn cynnig lleoedd wedi’u gwresogi yn ein hadeiladau cymunedol, diodydd poeth am ddim, a gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. I gefnogi'r fenter, gwnaethom gyflwyno digwyddiadau wedi'u teilwra gan gynnwys crosio, gwau a gemau bwrdd.

Roedd Hybiau Gofal yn cynnwys gweithgareddau pontio’r cenedlaethau yn eu rhaglenni gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys ymweliadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth ag ysgolion lleol ar gyfer cyngherddau Nadolig a gwasanaethau carolau Nadolig.

Mae hybiau'n parhau i gynnig llawer o weithgareddau a dosbarthiadau ar gyfer pobl hŷn fel pêl-droed cerdded, tai chi, clybiau garddio, canu, gwau a sgwrsio, a digwyddiadau ffrindiau a chymdogion.

## Gwella Ansawdd Aer

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod llygredd nitrogen deuocsid ($NO_2$) ac ansawdd aer gwael yn arwain at ddinasyddion sy'n dioddef afiechyd. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod trigolion yn rhai o’r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd yn destun lefelau uwch o lygredd aer, a bod hyn yn effeithio'n anghymesur ar drigolion o gymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol.

Gwnaeth y Cyngor barhau i fesur ansawdd aer ar draws ystod o leoliadau yng Nghaerdydd yn ystod 2022/23. Gwnaethom ddrafftio cynigion (mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru) ar gyfer cynllun parhaol ar gyfer Stryd y Castell yng nghanol y ddinas a fydd yn sicrhau canlyniadau a fydd yn lleihau lefelau allyriadau yng nghanol y ddinas a'r ardaloedd cyfagos.

Gwnaethom sicrhau £8 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth bysus trydan yn y ddinas. Bydd hyn yn arwain at brynu 19 bws trydan, gan gynyddu cyfanswm y bysus trydan sy'n gweithredu yng Nghaerdydd i 55.

## Gwella Gwaith Datblygu Polisi Lleol ar gyfer Dinas Decach

Cymorth Datblygu Polisi

Er mwyn cynorthwyo’r gwaith o ddatblygu polisi o fewn y Cyngor, datblygodd y Tîm Polisi Corfforaethol Borthol Polisi. Fe'i crëwyd i'w gwneud yn haws i swyddogion ddatblygu polisïau integredig, cynhwysol a gwybodus. Mae'n nodi arfer da, arweiniad a chyngor ar gyfer datblygu polisi, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am sut mae prosesau gwneud penderfyniadau yn gweithio yn y Cyngor. Mae'r Porthol yn cynnwys gwybodaeth am ystod eang o asesiadau effaith gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'n rhoi manylion cyswllt y tîm/swyddog arweiniol ar gyfer pob asesiad.

Mae'r porthol yn cynnwys Offeryn Sgrinio Asesiadau Effaith sy'n helpu swyddogion i feddwl am ofynion statudol y mae'n rhaid eu hystyried, yn ogystal ag ystyriaethau arfer gorau, wrth ddatblygu polisïau, strategaethau a phrosiectau. Bydd yn gwneud asesiad cyflawn o'r hyn y gallai fod angen i swyddog ei wneud, a phwy all ei helpu, wrth iddo ddatblygu ei gynnig. Ar ôl cwblhau'r offeryn, bydd e-bost awtomataidd yn cael ei anfon at y swyddog gyda'r camau nesaf a argymhellir a manylion ynghylch â phwy i gysylltu i gael cyngor arbenigol.

Mae angen i bolisïau sydd i'w hystyried gan Gabinet y Cyngor fynd trwy broses blaengynllun. Mae'r broses hon yn cyfeirio swyddogion at y Porthol Polisi ac yn eu cyfarwyddo i gwblhau'r Offeryn Sgrinio Asesiadau Effaith. Mae'n golygu na all unrhyw wasanaeth symud ymlaen gydag adroddiad i'r Cabinet heb gael ei rybuddio am y gofyniad iddo ystyried yr asesiadau amrywiol y gallai fod angen iddo eu cwblhau.

Datblygodd y Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol draciwr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) i adolygu eitemau Blaengynllun y Cabinet i ystyried pa adroddiadau sydd ar ddod a allai fod angen AEG. Lle mae angen AEGau, cynigir cymorth, cyngor ac arweiniad i swyddogion.

<u>Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</u>

Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) fel ffordd o werthuso ein cynigion i weld a oes ganddynt y potensial i effeithio ar bobl yn wahanol a chefnogi ein proses o wneud penderfyniadau.

Eu diben yw nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau presennol neu bosibl i wneud yr hyn a wnawn mor deg â phosibl. Mae'r Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol yn cynnig rhaglen hyfforddiant gadarn, codi ymwybyddiaeth a chyngor un wrth un i holl wasanaethau'r Cyngor i'w cefnogi gyda sgrinio cynigion a chwblhau AEGau o ansawdd uchel lle mae eu hangen.

Mae'r tîm wedi datblygu ffurflen asesu effaith sengl sy'n dwyn ynghyd sawl asesiad effaith (gan gynnwys AEGau) mewn un ddogfen. Mae gwybodaeth ynghylch â phwy i gysylltu i gael cyngor ac arweiniad hefyd wedi'i chynnwys. Mae'r Asesiad Effaith Sengl yn orfodol ar gyfer pob penderfyniad polisi newydd a gaiff ei ystyried gan y Cabinet.

Er mwyn helpu i ddatblygu AEGau, mae'r Porthol Polisi hefyd yn cynnwys dangosfwrdd cydraddoldeb sy'n dwyn ynghyd ddata lleol a chenedlaethol ar dlodi ac anghydraddoldeb mewn un lle. Gellir dadansoddi gwahanol elfennau yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd i wella'r dystiolaeth a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau.

Rhoddodd y Tîm Cydraddoldeb hyfforddiant ac arweiniad ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i swyddogion drwy gydol y cyfnod adrodd hwn. Mae'r hyfforddiant a'r arweiniad yn ceisio sicrhau bod dadansoddiad cydraddoldeb y Cyngor:

- Yn amserol, yn berthnasol ac yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau.
- Yn arwain at gamau gweithredu a mesurau clir ar gyfer llwyddiant.
- Yn cynnwys methodoleg ar gyfer asesiadau effaith cronnol a phennu cyllidebau.

- Yn ystyried grwpiau perthnasol eraill nad ydynt wedi'u diogelu'n benodol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rhoddodd y Tîm Cydraddoldeb gyngor ac arweiniad ar AEGau ar gais swyddogion ar draws pob cyfarwyddiaeth hefyd.

## Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol

### Strategaeth Gweithlu

Datblygodd y Cyngor strategaeth newydd ar gyfer ei staff yn ystod 2022/23. Mae Strategaeth Gweithlu 2023-2027 yn nodi'r blaenoriaethau allweddol i greu diwylliant sy’n cefnogi perfformiad uchel ac yn galluogi gweithlu hyblyg, medrus ac amrywiol sydd wedi ymgysylltu. Mae'n cefnogi ymrwymiadau a wnaed o fewn 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' sy'n cynnwys yr angen am weithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

### Cefnogi a Chydweithio gyda'n Rhwydweithiau Cydraddoldeb Cyflogeion

Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi pum rhwydwaith a arweinir gan gyflogeion sy'n gwneud cyfraniad hanfodol at hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. Y rhwydweithiau yw:

- Rhwydwaith Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Rhwydwaith Gofalwyr
- Rhwydwaith Anabledd
- Rhwydwaith LHDT+
- Rhwydwaith Menywod

Mae ein Rhwydweithiau yn cynnig adnodd hanfodol a gwerthfawr sy'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni’r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sef:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau, a;
- Hyrwyddo perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau.

Gwnaethom barhau i weithio gyda’n rhwydweithiau i gefnogi cyflogeion ac i helpu i nodi’r cymorth y mae ei angen ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cynnydd yn y Cyngor.

### Cefnogi Iechyd a Lles Cyflogeion

Mae gan gyflogeion y Cyngor fynediad at Care First, adnodd cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, cynghorwyr mewnol, Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ac Iechyd Galwedigaethol. Rydym yn rhoi cymorth i grwpiau lles sy'n galluogi cyflogeion i gael gafael ar gymorth a chyngor.

Dosbarthwyd gwybodaeth a chylchlythyrau iechyd a lles rheolaidd i gyflogeion.

Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn ystod 2022/23 eu bod yn adolygu gwobrau Safon Iechyd Corfforaethol yn dilyn y pandemig. Mae'r gwobrau'n arwydd o ansawdd ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle ac yn edrych ar y gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhwysol. Tra bod yr adolygiad yn parhau, mae ICC wedi cyflwyno 'gwiriad statws uwch' dros dro. Ym mis Tachwedd 2022 pasiodd y Cyngor yr asesiad dros dro gydag adborth rhagorol a gwnaeth gynnal ei wobr arian.

## Ein Hachrediad Arfer Gorau

Y Siarter Hil yn y Gwaith

Gwnaeth y Cyngor gyflawni ein hymrwymiadau tuag at Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned, mae hyn yn cynnwys:

- Penodi Noddwr Gweithredol ar gyfer hil.
- Mae ein dau Uwch Hyrwyddwr Rheoli yn cwrdd yn rheolaidd ag aelodau o'r Rhwydwaith Cyflogeion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i drafod sut y gellir gwella'r sefydliad.
- Casglu data ethnigrwydd at ddibenion adrodd a rhoi cyhoeddusrwydd i'r data hwn yn flynyddol ynghyd â chynnydd ar unrhyw fentrau. Mae'r data hwn yn helpu i lywio gwaith datblygu polisi a mentrau ac ymyriadau targedig.
- Mae'r Cabinet ac Uwch Reolwyr wedi ymrwymo i beidio â goddef aflonyddu a bwlio. Mae hyn wedi'i gynnwys ym Mholisi Datrys y Cyngor ac er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl eglur i bawb, mae'r Cyngor hefyd yn datblygu Polisi Urddas yn y Gwaith a fydd yn tynnu sylw at hyn.
- Ei gwneud yn glir mai cyfrifoldeb pob arweinydd a rheolwr yw cefnogi cydraddoldeb yn y gweithle.
- Rhoi cymorth parhaus, hyfforddiant, a rhannu gwybodaeth i bob arweinydd a rheolwr.
- Gweithio gyda'r Rhwydwaith Cyflogeion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i wrando ar a deall y rhwystrau sy'n wynebu dilyniant gyrfa ac mae gwaith ar raglen arweinyddiaeth yn digwydd.

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Gwnaethom gyflawni ein hymrwymiadau tuag at fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod pob ymgeisydd a nododd ei fod yn anabl ac a oedd yn bodloni meini prawf hanfodol gofynnol rôl yn cael ei wahodd ar gyfer cyfweliad.
- Rhoi cyfle bob chwe mis drwy ein proses adolygu bersonol i bob cyflogai drafod gyda'i reolwr yr hyn y gallant ei wneud gyda'i gilydd i ddatblygu ei hun a defnyddio ei alluoedd.
- Ymrwymo i gynnig addasiadau rhesymol i gyflogeion anabl.
- Sicrhau canllawiau niwroamrywiaeth ar gyfer cyflogeion a rheolwyr.
- Rhoi sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd gan roi cyfle i gyflogeion ddatblygu lefel briodol o ymwybyddiaeth o anabledd.
- Gweithio gyda'n Rhwydwaith Cydraddoldeb Cyflogeion Anabledd i godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl staff o faterion anabledd.

Gwobr Aur Stonewall

Enillodd y Cyngor Wobr Aur nodedig Stonewall mewn cydnabyddiaeth o'i waith i ymgorffori cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a dangos cynhwysiant i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn y gweithle ac wrth ymgysylltu a darparu gwasanaethau'n allanol.

Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Cyflwyno hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod fel rhan o'r ystod eang o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i gyflogeion;
- Defnyddio iaith gynhwysol a niwtral o ran y rhywiau ym mholisïau'r Cyngor; a
- Bod â Rhwydwaith Cydraddoldeb Cyflogeion LHDT+ cryf sy'n cael ei gefnogi gan uwch hyrwyddwyr rheoli newydd.

Gwnaeth y wobr hefyd gydnabod:

- Dull caffael y Cyngor sy'n sicrhau bod gan gyflenwyr ymagwedd gynhwysol at bobl LHDT+;
- Cynnydd a wnaed o ran cydraddoldeb LHDT+ wrth ddarparu gwasanaethau fel y Gwasanaeth Maethu; a
- Cydweithredu ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru fel rhan o Gynghorau Balch.

Un o 100 Cyflogwr Gorau Stonewall

Gwnaeth y weledigaeth Cryfach, Tecach, Gwyrddach ar gyfer Caerdydd ymrwymiad clir i ni adeiladu ar ein Statws Aur gan Stonewall fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau cynwysoldeb LHDTC+, gyda'r nod o fod yn un o 100 cyflogwr gorau Stonewall a'r awdurdod lleol â'r sgôr uchaf yng Nghymru ym Mynegai Stonewall.

Daethom yn un o 100 cyflogwr gorau Stonewall ym mis Chwefror 2023 a rhagori ar ein nod trwy ddod yr awdurdod lleol â'r sgôr uchaf yn y DU.

Cyflogwr Carer Confident

Cyflawnodd y Cyngor lefel 2 y cynllun meincnodi Carer Confident.  Mae'r cynllun yn cynorthwyo cyflogwyr i greu gweithle cefnogol a chynhwysol ar gyfer cyflogeion sydd, neu a fydd yn dod, yn ofalwyr ac i fanteisio i'r eithaf ar y doniau y mae gofalwyr yn eu cynnig i'r gweithle. Mae cyflogwyr Carer Confident yn cydnabod pwysigrwydd cadw aelodau gwerthfawr o staff, lleihau absenoldeb a chostau recriwtio diangen a gwella gwydnwch, ymgysylltiad a chynhyrchiant staff.

## Hyfforddiant a Dilyniant Gyrfa

Comisiynwyd amrywiaeth o becynnau hyfforddiant cydraddoldeb gan Academi Cyngor Caerdydd ac maent ar gael i bob cyflogai.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- Iaith Arwyddion Prydain (Lefelau 1-2)
- Ymwybyddiaeth o Fyddardod

- Anabledd a Chydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb
- Hyfforddiant Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth o Namau ar y Golwg
- Gweithdai Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd Stonewall Cymru

Hefyd mae modiwl e-ddysgu ar Ragfarn Ddiarwybod sy'n rhagofyniad gorfodol o'n hyfforddiant Recriwtio a Dethol.

Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei gyflwyno’n rheolaidd a'i werthuso i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn ddefnyddiol i gyflogeion.

## Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol

Mae maint gwariant y Cyngor yn cynnig cyfleoedd i sicrhau elw cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, gyda ffocws penodol ar waith teg, sicrhau buddion cymunedol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fusnesau a chymunedau lleol trwy gontractau'r Cyngor. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y Cyngor Strategaeth Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol 2022-27 newydd, gan nodi blaenoriaethau caffael allweddol a'r newidiadau a wneir i wella'r ffordd y caiff gwariant allanol ei reoli.

Amcan allweddol y strategaeth yw gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a’r trydydd sector. Mae canlyniadau diwedd blwyddyn yn dangos perfformiad boddhaol - mae canran gwariant cyffredinol y Cyngor o fewn sefydliadau yng Nghaerdydd yn 51.62% yn erbyn targed o 52%, ac mae canran y gwariant cyffredinol o fewn sefydliadau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn 65.61% o gymharu â tharged o 66%. Mae dadansoddiad manwl o wariant wedi'i wneud i nodi cyfleoedd i gynyddu gwariant lleol ymhellach, gyda chynllun prosiect manwl i yrru hyn ymlaen. Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor a'i bartneriaid i nodi cyfleoedd i gynyddu gwariant lleol wrth symud ymlaen.

Mae cynnydd da hefyd yn cael ei wneud mewn perthynas â chynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr, yn enwedig wrth ehangu buddion cymunedol i gontractau y tu hwnt i'r maes adeiladu. Mae'r Cyngor yn un o'r cynghorau blaenllaw yng Nghymru o ran sicrhau buddion cymunedol drwy ei gontractau. Mae’r Cyngor yn defnyddio’r system Porthol Gwerth Cymdeithasol i ddal ymrwymiadau contractwr ac i fonitro/rheoli’r broses o’u cyflawni dros gyfnod y contract. O ganlyniad, ar ddiwedd mis Mawrth 2023 roedd 33 o gontractau 'byw' a oedd yn cynnwys ymrwymiadau gwerth cymdeithasol ac a fyddai'n cyflawni dros £7.6 miliwn o werth cymdeithasol gan gynnwys dros 6,250 o wythnosau prentisiaeth, dros 2,325 o wythnosau o gyfleoedd hyfforddiant, dros 410 o wythnosau o brofiad gwaith a bron i 5,000 o oriau gwirfoddoli.

## Dathlu’n Amlwg Amrywiaeth ein Dinas

Mae Cyngor Caerdydd yn falch iawn o enw da Caerdydd o fod yn ddinas amrywiol lle mae pobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd yn cael eu croesawu a'u hannog i fod yn nhw eu hunain. Credwn ei bod yn iawn dathlu amrywiaeth fel ffordd o greu cydlyniant cymunedol, creu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, annog undod, dileu, gwahaniaethu a goresgyn stereoteipiau.

Er mwyn cyflawni hyn, gwnaethom hyrwyddo nifer o ymgyrchoedd a digwyddiadau i gyflogeion trwy dudalennau mewnrwyd y Cyngor ac e-byst gwybodaeth i staff. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG)
- Diwrnod Gwrth-Hiliaeth
- Diwrnod Atal Caethwasiaeth
- Diwrnod Balchder Awtistiaeth
- Mis Hanes Pobl Ddu
- Diwrnod Hawliau Gofalwyr
- Boreau Coffi Ymwybyddiaeth o'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Cyflogeion
- Wythnos Gweithredu ar Ddementia
- Diwrnod Cofio'r Holocost
- Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia
- Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- Mis Ymwybyddiaeth o Islamoffobia
- Mis Hanes LHDT+
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Enseffalomyelitis Myalgig
- Diwrnod Shwmae Sumae
- Cynllun Blodyn yr Haul Anableddau Cudd
- Diwrnod Gwelededd Traws
- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
- Diwrnod y Rhuban Gwyn (Diwrnod Rhyngwladol i roi terfyn ar Drais yn erbyn Menywod)
- Diwrnod AIDS y Byd
- Diwrnod Menopos y Byd